cylchgrawn newyddion agoriadcyf

InSight

rhifyn y gaeaf • 2011-2012

Helping people with disadvantages to achieve independence through employment
Rhoi help llaw i bobl dan anfantais ddod yn annibynnol drwy weithio

Ym mlwyddyn y Gemau Olympaidd, fe welwn ragoriaeth ar waith; gobeithio y bydd yr un safonau i'w gweld yn ein dealltwriaeth o anghenion pobl eraill

Rwy'n cofio ysgrifennu yn rhifyn diwethaf Insight am y newidiadau, heriau a chyfleoedd fyddai'n wynebu Agoriad wrth i'r Glymblaid ddefnyddio'i grym i ddiwygio budd-daliadau.

Dros gyfnod o ugain mlynedd mae Agoriad wedi rhoi help llaw i lawer o bobl tuag at waith wrth ymestyn ystod ein gwasanaethau drwy Gymru. Rydym wedi cynyddu ystod ein buddiolwyr - o gleientiaid dan anfantais a rhai sy'n dioddef o gyflyrau iechyd tymor hir (neu eraill sydd wedi cael damweiniau neu afiechyd gafodd ddylanwad ar y math o waith sydd ar gael iddynt) - i ddiffiniad llawer ehangach o fod dan anfantais yn y gweithle.

Ymateb i newidiadau o du'r Llywodraeth mae llawer o ddatblygiad Agoriad, ynghyd â gofynion rhanddeiliaid a'r cyllid sydd ar gael.

Ceir llawer o ddatganiadau'r dyddiau hyn am gydraddoldeb, cyfleoedd cyfartal, gweithredu'n gadarnhaol ac yn y blaen, ond rwy'n ofni mai tanlinellu gwahaniaeth, analluedd a diffyg cydraddoldeb mae'r syniadau hyn yn aml.

Rhaid inni sylweddoli y bydd gwahaniaethu bob amser yn bodoli ... mae'n rhan o'r natur ddynol. Waeth pa mor aml y ceir deddfu, mae'n annhebyg o newid agwedd rhai pobl; ni fydd pob ymdrech a wnawn i gefnogi a chynrychioli'n ddigon ond yn hytrach yn dangos nad yw'r un cyfle ar gael i bawb.

Eleni yw blwyddyn y Gemau Olympaidd, uchafbwynt rhagoriaeth ym maes chwaraeon. Mae gennym hefyd wrth gwrs, y Gemau Paraolympaidd sy'n adlewyrchu beth sy'n bosib ei gyflawni drwy ymroddiad a phenderfyniad, ond does neb yn awgrymu cystadleuaeth rhwng rhedwr mewn cadair olwyn ag Usain Bolt.

Rydym i gyd yn ymwybodol o gyflwr yr economi; mae pawb yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd ynglŷn â chyflogi staff, trafod cytundebau, a cheisio cydbwyso'r costau. Mae'n waith anodd ceisio cael cyflogwyr i roi cyfle i'n cleientiaid pan fo gwaith yn brin, a dim digon o arian sbâr i gyfiawnhau 'gwneud y peth iawn'.

Wn i ddim yn iawn a oes unrhyw fudd mewn dweud wrth fusnesau fod raid iddynt lynu wrth gyfraith cydraddoldeb a chymryd camau cadarnhaol, nac ychwaith fynnu fod pobl ar fudd-daliadau yn gorfod mynd allan i chwilio am waith. Gwaith yn lle?

• Parhad ar dudalen 2

• parhad o dudalen 1

Mae'n hollol annheg fod sefydliadau fel Agoriad yn gorfod gwneud i bethau ddigwydd dros nos, a chodi'r darnau pan fydd y cyfan yn chwalu neu pan fo blaenoriaethau cyllidol yn cael eu newid.

Pam mae llywodraethau olynol yn rhefru am drin pob gweithiwr yn gydradd? Ydyn nhw'n methu gweld calon y gwir? Mae pawb yn wahanol; mae gennym oll ein cryfderau a'n gwendidau. Yn hytrach na bod yn gydradd â phawb arall, rydyn ni'n dewis chwilio am swyddi mewn meysydd lle mae'r sgiliau a'r profiad gennym, a'r gallu i weithio'n fedrus. Mae'n wir, wrth gwrs, fod darganfod ein talent a'n gallu i raddau'n reddfol; er hynny, gallent gael eu mireinio a'u sianelu drwy ymdrech, a thrwy weithio gyda chyfryngwr, yn union fel y mae athletwr naturiol yn gwella'i sgiliau drwy dderbyn hyfforddiant.

Mae'n hanfodol ein bod i gyd yn symud yn ein blaenau - yn ddarparwyr gwasanaeth, cyflogwyr, a chymdeithas - tuag at fyd gwaith lle mae pawb yn gwneud ei ran, nid fel ymarfer mewn cydraddoldeb, ond er mwyn dathlu'r ffaith fod gan bob un ohonom gyfraniad unigryw i'w wneud.

Arthur Beechey,
Prif Weithredwr.

Yma i'ch helpu'r holl ffordd

Rydym yn deall eich anghenion a'ch anawsterau o gael swydd os ydych chi dan anfantais neu'n ddi-waith ers tro. Os oes gennych chi ysbryd cadarnhaol ac uchelgais, gallwn weithio gyda chi er mwyn creu cyfleoedd go iawn - cyfle i newid eich bywyd drwy fod yn rhan o fyd gwaith.

Gan ein bod yn brofiadol mewn darparu swyddi a hyfforddiant, a chan fod gennym wybodaeth drylwyr o anghenion y farchnad lafur leol, gallwn eich sicrhau o gyfle gwirioneddol. Heb ymyrryd yn ormodol, bydd ein gwasanaethau cyfeillgar yn eich paratoi'n dda ar gyfer ymuno â'r gweithlu.

Rhown gefnogaeth ichi yn ystod eich cyfnod hyfforddi, a darparu cyrsiau i'ch addysgu a'ch datblygu, er mwyn ichi ddeall gweithle'r cyflogwr yn well. Mae'r gwasanaethau yma'n rhai rydyn ni wedi arfer eu cynnig, ac fe wnawn hynny mewn modd cyfeillgar ac effeithiol, gan eu teilwrio i'ch anghenion penodol chi.

Gall ein hyfforddwyr swyddi a'n gweithwyr cefnogol roi cymorth ichi ar eich taith i waith, gan ddangos ichi sut i gyflwyno'ch hunain i gyflogwyr. Byddwn yn gofalu rhoi digon o arweiniad ichi bob cam o'r ffordd er mwyn creu hunanhyder ac ymwybyddiaeth all arwain at brofiad gwaith fydd yn ddymunol a defnyddiol ichi.

Cysylltwch â:
John Hughes yn Agoriad ar (01248) 361 392
neu ebostio: john@agoriad.org.uk

Os oes gennych chi swydd wag, efallai bod gennym ymgeisydd delfrydol ar eich cyfer y gallech fod heb ei ystyried

Mae Agoriad yn ddarparwr hyfforddiant a swyddi gyda **dros 20 mlynedd o brofiad** ac sy'n deall y farchnad lafur leol yn iawn. Gall Agoriad fod yn llinyn cyswllt uniongyrchol rhwng cyflogwyr a phobl abl sy'n chwilio am waith.

Mae gennym dîm o Swyddogion Cyflogaeth drwy Ogledd Cymru sy'n meddu ar brofiad, dealltwriaeth a gwybodaeth leol sydd ei angen i baru'r unigolyn iawn gyda'r swydd briodol.

Mae ein cleientiaid yn amrywio o bobl sy'n chwilio am fynediad, hyd at lefelau proffesiynol, gan ein bod yn gweithio o fewn fframwaith rhaglenni 'O Fudd-dal i Waith'.

Os oes gennych swydd wag, neu os hoffech chi gael sgwrs anffurfiol gyfrinachol am faterion cyflogaeth, byddem yn falch o glywed oddi wrthych. E-bost: john@agoriad.org.uk

01248 361392

Y camau pwysig cyntaf at gyflogaeth

Bydd dros 40 o bobl Gwynedd ac Ynys Môn yn dechrau ar eu taith yn ôl at waith drwy gyfrwng Cynlluniau Porth Ymgysylltu Agoriad, ac ar yr un pryd yn cael golwg werthfawr ar fyd gwaith.

Caiff prosiectau'r Porth Ymgysylltu eu hariannu drwy Gronfeydd Cydgyfeirio'r Undeb Ewropeaidd, ac fe'u hanelir at sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl y tu allan i gylch gwaith, ac sydd ymysg y rhai anoddaf eu cyrraedd.

Mae'r ddau brosiect Porth sydd gennym yn cael eu hanelu'n benodol at ddileu'r rhwystrau i weithio, a lleihau diffyg gweithgarwch economaidd drwy wella siawns pobl o gael gwaith, yn arbennig yr unigolion hynny sy'n cael eu hystyried ymhell o'r farchnad lafur.

Gan ganolbwyntio ar helpu unigolion wella'u gwybodaeth, sgiliau a'u hyder, a chan roi cefnogaeth tîm pwrpasol iddynt drwy'r cyfan, mae'r prosiect yn galluogi pob cyfrannwr i gysylltu â chyflogaeth prif lif drwy gael profiad gwaith gwerthfawr ac ennill cymwysterau achrededig.

Un person gafodd fudd o'i gyfnod ar y cwrs ydy Barry Francis.

Daeth Barry, sy'n byw ar Ynys Môn, i gysylltiad ei hunan â'r rhaglen Porth at Waith ym mis Mai 2011. Nid oedd wedi gweithio ers 2003, ac roedd yn awyddus i ailymuno â'r farchnad lafur.

Pan ddechreuodd fynychu'r rhaglen, roedd Barry'n brin o hyder, yn arbennig mewn criw o bobl, ond gan fod y grŵp yn un bach, a'r awyrgylch yn anffurfiol, fe ddaeth yn amlwg yn fuan fod Barry'n ennill hyder wrth gymryd rhan lawn mewn trafodaethau grŵp. Roedd hefyd yn mwynhau ochr fwy cymdeithasol y cwrs, gan ddechrau sgwrsio gyda phobl eraill yn ystod y toriadau am baned.

Astudiodd Barry Dirlunio a Garddwriaeth mewn coleg lleol, ac roedd yn awyddus i fynd yn ôl i'r maes hwn. Yn ystod y rhaglen, trefnodd Agoriad leoliad gwaith iddo ym Meithrinfa Treborth. Roedd hwn yn lleoliad dros 8 wythnos, ac fe gynyddodd o un diwrnod i ddau ddiwrnod llawn bob wythnos wrth i Barry arfer gyda'r gwaith.

Ar ddiwedd cyfnod y lleoliad gwaith roedd yr adborth gan y Feithrinfa'n eithriadol o galonogol, ac yn pwysleisio ymdrech Barry i gyflawni ei dasgau i safon uchel. Rhoddodd y lleoliad gyfle i Barry ddarganfod mwy am weithio mewn garddwriaeth, a gwell syniad a fyddai'n yrfa addas ar ei gyfer o. Hefyd, cafodd Barry brofiad ymarferol o'r gwaith fyddai'n ei helpu i ddisgleirio fel ymgeisydd pan ddeuai'n amser ymgeisio am waith.

Drwy fynychu'r cwrs, mae Barry wedi ennill Gwobr Cyflogadwyedd Asdan ar Lefel 1, sydd wedi bod o ddefnydd iddo wrth lunio CV gyfredol, llunio llythyr i gyd-fynd, a hefyd wella'i sgiliau chwilio am waith.

Yn ôl Barry, mae o wedi ennill hyder yn ystod y rhaglen, a byddai'n bendant yn ei argymell i bobl eraill. Erbyn hyn, mae'n teimlo'n abl i fynd at gyflogwyr yn annibynnol, ac mae eisoes wedi ymgeisio am sawl swydd.

Drwy wella sgiliau, cymhelliant a hunanhyder unigolion, a rhoi cyngor, cefnogaeth ac arweiniad wedi'u teilwrio'n arbennig ar eu cyfer, a hefyd eu helpu i gael profiad gwaith defnyddiol, dysgu sut i fynd ati i chwilio am waith a datblygu fel person, mae'r prosiect Porth Ymgysylltu yn ceisio helpu pob person unigol i symud yn nes at gyflogaeth a dod yn aelodau gwerthfawr a gweithgar o'u cymuned.

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action

Mae'r prosiectau Porth yn cael eu hariannu gan WCVA fel rhan o'r Rhaglen Porth Ymgysylltu. Rhagor o wybodaeth am hyn, neu brosiectau Porth eraill, ac i gyfeirio manylion cyfranogwyr:

Cysylltwch â:
Robyn Williams ar (01248) 361 392
neu ebostio: robyn@agoriad.org.uk

Cyrsiau

Drwy gyfrwng ein gwasanaethau a'n cyrsiau, mae cyflogwyr a darpar weithwyr yn cael cynnig cyfleoedd unigryw drwy Ogledd Cymru ac Ynys Môn.

Y Rhaglen Waith

Gwasanaeth recriwtio o fudd-dal i waith wedi'i bersonoli er mwyn helpu'r di-waith a'r cyflogwr lenwi swyddi gwag o fewn y gweithle.

Prosiect Porth Iechyd Meddwl yng Ngwynedd ac Ynys Môn

Ateb anghenion yr unigolyn o ran hyder, hunan-barch, cymhelliant a datblygiad gyrfa.

Prosiect Porth Anableddau Dysgu Ynys Môn

Cynlluniwyd y rhaglen i wella'r sgiliau, hyder a'r gallu sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth, a helpu pob unigolyn wneud cynnydd tuag at ddod yn economaidd gynhyrchiol.

Llwybrau Cerdded

Gwasanaeth sy'n helpu pobl gydag anableddau dysgu difrifol sy'n aml yn dioddef hefyd o anabledd corfforol, nam synhwyraidd, problem iechyd meddwl, ymddygiad heriol, cyflwr meddygol, a/neu awtistiaeth.

Sgiliau Hanfodol Cymru

Mae'n canolbwyntio ar y sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer pob agwedd ar addysg, hyfforddiant, gwaith a sgiliau byw cyffredinol.

O'r chwith i'r dde: Joe Mason - Prif Weithredwr Walk; Sioned Rees - Cyfarwyddwr, Partneriaethau Allanol, Gogledd Cymru; Mick Barlow - ymddiriedolwr Agoriad; Catherine Devine - Cyfarwyddwr Gwasanaethau, Walk; Roger Seddon - Swyddog Datblygu Prosiect Iwerddon-Cymru, WEFO; Arthur Beechey - Prif Weithredwr Agoriad.

Lansio Llwybrau Cerdded yng Nghastell Penrhyn

Menter newydd ydy Llwybrau Cerdded sy'n cynnig y cyfleoedd a'r dewisiadau gorau i bobl anabl wrth iddynt symud tuag at gyflogaeth.

Mae'n canolbwyntio ar roi'r offer gorau i bobl gydag anableddau deallusol – sydd yn aml yn dioddef hefyd o anabledd corfforol, nam synhwyraidd, problemau iechyd meddwl, ymddygiad heriol, cyflwr meddygol a/neu awtistiaeth – fel y gallent ddatrys eu problemau tymor hir. Drwy deilwrio rhaglenni cyflogaeth ar gyfer yr unigolyn, daw targedau gwaith yn fwy cyraeddadwy a realistig.

Lansiwyd adain Gymreig menter Llwybrau Cerdded yng Nghastell Penrhyn, Bangor. Daeth y prosiect i fodolaeth drwy bartneriaeth rhwng WALK ((Walkinstown Association for People with an Intellectual Disability Ltd) yn Iwerddon ac Agoriad yng Nghymru, gyda chefnogaeth gan Gyngor Sir Ynys Môn. Ymysg y rhai a fynychodd y digwyddiad oedd Roger Seddon, Swyddog Datblygu Iwerddon-Cymru ar ran arianwyr Cymreig ac Ewropeaidd y prosiect, Joe Mason, Prif Weithredwr WALK, Andrea Wayman, Cyfarwyddwr ELITE Supported

O'r chwith i'r dde: Robyn Williams - Rheolwr Hyfforddiant, Agoriad; Karen Jones - Swyddog Datblygu Prosiectau, Agoriad; Jude Butcher - Cydlynydd Datblygu Cymwysterau, Agoriad.

O'r chwith i'r dde: Arthur Beechey - Prif Weithredwr Agoriad; Roger Seddon - Swyddog Datblygu Prosiect Iwerddon-Cymru, WEFO; Andrea Wayman - Cyfarwyddwr ELITE Supported Employment Agency Ltd; Chris English - Rheolwr Gweithrediadau (Hyfforddiant) ELITE Supported Employment Agency Ltd; Simon Higgins - Prif Weithredwr, Cymdeithas Gynghori ac Eirioli Gogledd Cymru.

Employment Agency Ltd, Simon Higgins, Rheolwr Cymdeithas Gynghori ac Eirioli Gogledd Cymru, a Sioned Rees, Cyfarwyddwr Partneriaethau Allanol, Gogledd Cymru. Meddai:

"Rhan allweddol o'm swydd newydd ydy rhoi cefnogaeth weithredol i bartneriaethau rhanbarthol sy'n cydweithio i gefnogi a gwella gwasanaethau cyhoeddus yng Ngogledd Cymru er mwyn hybu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn egluro'r blaenoriaethau ar gyfer darparu'r gwasanaeth fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf i fywydau pobl Cymru. Crynswth y Rhaglen Lywodraethu ydy'r pwyslais ar bobl. Er mwyn gweld newid a gweithredu mae angen inni gydweithio mewn partneriaethau ar draws y sector gyhoeddus, y sector breifat a'r drydedd sector. Dyma pam fy mod i'n falch o lansio prosiect Llwybrau Cerdded yn swyddogol, gan ei fod yn enghraifft o weithio mewn partneriaeth i gefnogi pobl wrth iddynt symud i fyd gwaith. Mae'r prosiect yn darparu amgylchedd cefnogol i'r sawl sydd dan anfantais, yn anabl neu gydag anableddau dysgu, gan wneud y gorau o'u galluoedd, a sicrhau eu bod yn gallu cyfrannu tuag at y gymuned maen nhw'n rhan ohoni."

Ariennir Llwybrau Cerdded yn rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) drwy gyfrwng rhaglen Iwerddon/ Cymru.

agoriadcyf MENTRAU CYMDEITHASOL

Dŵr mwynol naturiol bur ydy Cerist o dir tywysogion chwedlonol Cymru... mynyddoedd urddasol Eryri.

Mae tarddiad Cerist yn y mynyddoedd hyn , fu'n ddigyfnewid dros filoedd o flynyddoedd.

dŵr mwynol naturiol

CERIST NATURAL MINERAL WATER

DŴR CERIST CYF

OFFYNHONNAU PARC CENEDLAETHOL ERYRI

mwy o wybodaeth ar www.dwrcerist.com

Swyddi ydy canolbwynt y Rhaglen Waith!

Mae gweithio gyda chyflogwyr a sicrhau'r cynnig gorau'n hanfodol

Sefydlwyd Working Links yn 2000 er mwyn helpu pobl ddi-waith tymor hir gael swyddi. Drwy ganolbwyntio ein harbenigedd ar gefnogi pobl dan anfantais, ar ôl un mlynedd ar ddeg, gallwn ddweud ein bod wedi sicrhau cannoedd o gytundebau ar draws y DU, gan helpu dros 200,000 o bobl gael gwaith. Mae 23,000 o'r rheiny yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae'r Rhaglen Waith yn uchelgeisiol, ac yn gweithio'n wahanol iawn i raglenni cyflogi'r gorffennol. Mae'n cynnig gwasanaethau o fudd-dal i waith wedi'u personoli ar gyfer pawb sy'n ddi-waith, pa bynnag fudd maen nhw'n dderbyn, ac mae'n disodli'r system gymhleth o raglenni a geid yn y DU o'r blaen.

Yn fwyaf arbennig, bydd y Rhaglen yn darparu cefnogaeth tymor hir ar gyfer pobl sydd ar ystod o fudd-daliadau ar hyn o bryd. Nid rhoi help llaw i rywun gael gwaith ydy'r unig nod, ond hefyd eu cynnal o fewn y gweithle am gyfnod o hyd at ddwy flynedd.

Working Links ei hunan sy'n darparu 78% o'r rhaglen yn uniongyrchol, ac o'r herwydd, rydym wedi buddsoddi mewn isadeiledd i gynnal y ddarpariaeth, gan gynnwys sefydlu 23 o swyddfeydd ar draws Cymru gyda thîm o bobl brofiadol all roi cefnogaeth arbenigol i'n cwsmeriaid. Yn ychwanegol at hyn, rydym wedi llunio cadwyn amrywiol o gyflenwyr gan gynnwys 4 prif bartner o'r drydedd sector ac o'r sector gyhoeddus, a hefyd addysg bellach. Rydym yn hynod falch o gael cydweithio gydag Agoriad sy'n cyflenwi'r cytundeb yng Ngwynedd ac Ynys Môn.

Mae'n gynnar eto, gan mai dim ond 6 mis sydd wedi mynd o'r cytundeb 5 mlynedd, ond cawsom eisoes beth llwyddiant yn yr ymdrech i gael pobl yn ôl i waith. Ond nid hynny'n unig sy'n bwysig. Mae cynaladwyedd yr un mor bwysig i'r Rhaglen Waith ag ydy pobl yn dychwelyd at waith. Dyma'r rheswm pam na ddylid edrych ar y Rhaglen Waith ar ei phen ei hunan, ond ei bod yn cydweithio gydag ystod o sgiliau a darpariaeth eraill nid yn unig i sicrhau gwaith i bobl, ond hefyd eu helpu i'w gadw ac i gael eu dyrchafu o fewn y gweithle'n ogystal. Mae'n amlwg fod hyn yn gryn dipyn o sialens gan fod y cyfrifoldeb wedi'i rannu rhwng y Senedd yng Nghaerdydd ac yn Llundain. Cyfrifoldeb y Llywodraeth yn Llundain ydy budd-daliadau a chyflogaeth, ond mae sgiliau a meysydd eraill cysylltiedig wedi'u datganoli.

Rhan allweddol o'n swyddogaeth fel prif gontractiwr yng Nghymru a'r DU ydy gweithio gyda gwleidyddion ar ddau ben yr M4 i sicrhau gwelliannau cymdeithasol ac economaidd.

O'r safbwynt hwn, nid contract yn unig ydy'r Rhaglen Waith, ond yn hytrach rhaglen wleidyddol yn ogystal â rhaglen ddarparu. Dangoswyd diddordeb mawr yn ein gwaith, ac fe graffwyd arno gan randdeiliaid o bob sector, yn ogystal ag o gyfeiriad y cyfryngau a gwleidyddion. Yn ystod y misoedd diwethaf, croesawyd tri Gweinidog o'r Cabinet i'n swyddfa - Mrs. Cheryl Gillan, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Mr Iain Duncan Smith, Ysgrifennydd Gwladol o'r Adran Waith a Phensiynau, a hefyd y Prif Weinidog ei hun, ddewisodd ymweld yn ystod ei daith ddiwethaf i Dde Cymru.

Pam fod cymaint yn dangos diddordeb? Oherwydd bod cymaint yn dibynnu ar y Rhaglen Waith; oherwydd ei bod wedi ei hanelu at ddeilliannau; am ei bod ar waith mewn amgylchiadau economaidd dyrys ac anodd; oherwydd bod yr hinsawdd bresennol o leihau gwariant cyhoeddus yn cynyddu'r galw am wasanaethau cyhoeddus callach a mwy cost effeithiol; oherwydd y bydd yn cael effaith ar fywydau cymaint o bobl; ond yn bwysicach fyth, oherwydd bod gan y Rhaglen Waith y potensial i fod yn ganolog wrth ymdrin ag agweddau at ddiweithdra a diffyg gweithgaredd economaidd sydd wedi hen ennill eu plwyf, helpu datrys problem diffyg sgiliau ac yn y pen draw, gefnogi twf economaidd.

Wrth gwrs, swyddi fydd yn ganolog i lwyddiant y Rhaglen Waith. Mae gweithio gyda chyflogwyr a sicrhau'r cynnig gorau'n hanfodol. Mae'n bwysig ein bod yn gweithio gyda chyflogwyr a Chynghorau Sgiliau Sector i sicrhau ein bod yn darparu'r sgiliau iawn i gyfarfod anghenion busnes.

Os ydyn ni angen rhywbeth i'n hatgoffa o'r rheswm pam fod rhaid i hyn weithio, dylem gofio fod dros 120,000 yn ddi-waith yng Nghymru, a hanner miliwn arall sy'n economaidd anghynhyrchiol. Mae llawer o'r rhain y drydedd neu hyd yn oed y bedwaredd genhedlaeth sydd heb fod yn gweithio erioed, cymunedau cyfan heb unrhyw ragolygon o bethau'n gwella. Rydyn ni'n helpu i wrthdroi degawdau o fod yn ddi-waith ac o ddieithrio, a bydd yn sicr o gymryd amser.

Dylem i gyd geisio sicrhau ein bod yn edrych ar hyn fel her i bawb ohonom, a gweithio gyda'n gilydd i greu Cymru fwy ffyniannus.

Cysylltwch â:
John Hughes yn Agoriad ar (01248) 361 392
neu e-bostio: john@agoriad.org.uk

agoriadcyf MENTRAU CYMDEITHASOL

Caffi Coed-Y-Brenin

Lle gwych i hamddena wrth fwynhau coffi, byrbrydau, ciniawau blasus a chacennau bendigedig.

Chwarter canrif o wasanaeth i bobl Bethesda • Ystafell Achlysuron/Adnoddau Cynhadledd uwchben y caffi • Dewis da o fyrbrydau, ciniawau a chacennau i'w bwyta wrth y byrddau neu i fynd allan • Gellir cael bwffe yn y caffi neu wedi'i gludo i leoliad o'ch dewis chi • Gwneir Cacennau Dathlu cain ar y safle

Oriau agor : Llun - Gwener 9 y bore hyd 3 y pnawn

2 Victoria Place, Bethesda, Gwynedd LL57 3AG
ffôn: 01248 602550
e-bost: karena@agoriad.org.uk

Wrth ein bodd yn gweini arnoch chi!

www.cafficoed-y-brenin.org.uk

LLYS LLEWELYN TŶ TE

Ar aelwyd Tywysogion Cymru

Cinio • Te • Cacennau
Diodydd (trwyddedig) • Arlwyo Allanol
Man Cyfarfod i Grwpiau • Siop • Oriel

Ar agor rhwng 9 y bore a 5 y pnawn
7 diwrnod yr wythnos
Oriau estynedig ar ddyddiau Iau, Gwener a Sadwrn yn ystod yr haf

Aberffraw, Tŷ Croes, Ynys Môn LL63 5AQ
Ffôn: 01407 840847
E-bost: linda@agoriad.org.uk

"Cymerwch hoe i mewn neu allan wrth ddotio at Aberffraw"

www.llysllewelyn-tearooms.com

Agoriad yn allweddol i'ch busnes

Mae'r gwasanaeth a gynigiwn wedi'i deilwrio i'ch anghenion penodol chi. Wrth inni ddod i'ch adnabod chi a'ch cwmni, gallwn gynnig yr ymgeiswyr gorau ichi fydd wedi'u dewis am eu bod yn addas i'ch anghenion busnes. Rydyn ni hefyd yn cynnig cyrsiau datblygu a hyfforddiant i'n cleientiaid, sy'n golygu eu bod yn dod atoch wedi'u harfogi ac yn barod i ddechrau gweithio.

- *Gwasanaeth recriwtio a chefnogaeth yn y gwaith am ddim*
- *Cronfa ddata o bobl fedrus sy'n chwilio am waith*
- *Cael mynediad at weithlu lleol, ymroddedig*
- *Dilyniant o gefnogaeth gan Hyfforddwyr Swyddi proffesiynol*
- *Cyngor am grantiau cyflogaeth a chefnogaeth*

Drwy drafod eich anghenion recriwtio'n anffurfiol, gallwn helpu drwy edrych ar bortread ac asesiadau'n cleientiaid a chwilio am berson sy'n cyfarfod ag anghenion y swydd. Byddwn wedyn yn argymell darpar weithiwr i chi.

Rydyn ni'n darparu hyfforddwyr swyddi a gweithwyr cefnogol i helpu'n cleientiaid ddod i deimlo'n gartrefol o fewn y swydd, a gwneud cyfraniad gwerthfawr i'ch busnes.

Mae Agoriad yn gallu rhoi mynediad at hyfforddiant a chyrsiau i bobl dan anfantais, ac yn eu darparu, fel bod cleientiaid yn datblygu a chael gwell dealltwriaeth o'r gweithle. Mae'n rhaglenni lleoli cleientiaid yn golygu ein bod yn gallu cael gafael ar offer all fod o help i weithwyr anabl wneud eu gwaith yn fwy diogel ac effeithiol. Gall Agoriad hefyd helpu dod o hyd i gymorth a chyngor pryd bynnag mae'r cleient ei angen.

Gall cefnogaeth ariannol fod ar gael i rai gweithwyr sy'n cael cefnogaeth

Byddwn yn falch o glywed oddi wrthych. Gallwn roi cymorth heb ymyrryd yn ormodol, ac fe wnawn ein gorau i ddod o hyd i'r fantais bennaf i'r cyflogwr a'r cyflogedig.

Cysylltwch â:

John Hughes yn Agoriad ar (01248) 361 392 neu e-bostio: john@agoriad.org.uk

agoriadcyf

realising your potential
gwireddu eich potensial
www.agoriad.org.uk

Porth Penrhyn, Bangor, Gwynedd LL57 4HN
Tel/Ffôn: +44 (0)1248 361 392
Fax/Ffacs: +44 (0)1248 372 050
Email/E-bost: info@agoriad.org.uk

National Training Awards

European Social Fund

INVESTORS IN PEOPLE | Gold

ERDF

• Registered in England and Wales Wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr • Registered No. Rhif Cofrestredig 2700109
• Registered Office Swyddfa Gofrestredig Porth Penrhyn, Bangor, Gwynedd LL57 4HN • Charity No. Rhif Elusennau 1010165